# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-22-08)

### SLC204

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

### Teitl : Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 ("y prif Reoliadau") drwy ddiwygio'r diffiniad o "teulu" yn y prif Reoliadau ac i ddarparu y bydd gan berson sy'n derbyn lwfans cyflogi a chefnogi sy'n gysylltiedig ag incwm hawl i gael ad-daliad llawn o daliad GIG a thaliad llawn o dreuliau teithio GIG heb fod angen iddo hawlio taliad neu ad-daliad o'r fath.

### Gweithdrefn: Negyddol

Bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar y sail a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2(vi) (drafftio diffygiol)

Mae Rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau yn diwygio'r diffiniad o "teulu" drwy gyfeiriad at yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 y Rheoliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth 2008. Mae testun Cymraeg y Rheoliadau yn gyfieithiad llythrennol o'r testun Saesneg. Fodd bynnag, gan fod y Rheoliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ynglyn â meysydd annatganoledig (nawdd cymdeithasol) yr oeddent, o ganlyniad, wedi'u gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn Saesneg yn unig. Lle mae termau'n cael eu diffinio mewn deddfwriaeth y Cynulliad drwy gyfeirio at gyfundrefn enwau a ddefnyddir mewn dogfennau uniaith yr arfer fu nodi fod i'r term Cymraeg yr ystyr a roddir i'r term Saesneg yn y ddogfen benodol.

Cydnabyddir mai camgymeriad drafftio technegol yw hwn sy'n annhebyg o gamarwain y darllenydd ac na fyddai'n gofyn am gael ei gywiro'n ddi-oed.

Cynghorwyr Cyfreithiol

### Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Hydref 2008

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

### Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2)

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod fod yr adroddiad yn codi mater sydd o natur dechnegol na fydd yn effeithio ar y defnydd o'r Rheoliadau gan y darllenydd.

Nid yw'r Llywodraeth yn cytuno â'r pwynt adrodd.

Mae'r diwygiad sydd yn rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad o "teulu" yn rheoliad 2 o'r prif Reoliadau (Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007) lle y cyfeirir y darllenydd at Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992, mae'r diffiniad yn mynd rhagddo i restru eithriadau i'r rheol gyffredinol ac mae'r diwygiad hwn yn ychwanegu eithriad arall o'r fath.

Cyfieithwyd y diffiniad gwreiddiol i'r Gymraeg ac felly barnwyd y dylai unrhyw ychwanegiad neu ddiwygiad fod hefyd yn Gymraeg.

Yn ogystal, mae'r diwygiad yn cyfeirio'r darllenydd at Reoliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth 2008 ond nid ydynt yn dyfynnu'n uniongyrchol ohonynt.